NRA-Wales 77

NATIONAL RIVERS AUTHORITY
AWDURDOD
AFONYDD CENEDLAETHOL

WELSH REGION
RHANBARTH CYMRU

PLAN SUMMARY
CRYNODEB CYNLLUN
1990/91

N.R.A - Welsh Region
REGIONAL TECHNICAL (PLANNING)
Reference No : RTP156
LIBRARY COPY - DO NOT REMOVE

NRA

GUARDIANS OF THE
WATER ENVIRONMENT

INTRODUCTION

Established on 1st September 1989, the National Rivers Authority came into being as a result of the 1989 Water Act and was created as a public body whose main task it is to protect and improve the water environment in England and Wales and provide protection against flooding from rivers and the sea.

The Authority's Head Office is in London, but its operational activities devolve on ten Regions based on the former Water Authority areas.

This document, one of a set of ten, seeks to explain a little of Welsh Region NRA's background and show how the Authority's national aims as set out in its 1990/91 Corporate Plan will be translated into regional action.

CYFLWYNIAD

Breiniwyd yr Awdurdod Afonydd Cenedlaethol ar 1 Medi 1989 a daeth i fodolaeth o ganlyniad i Ddeddf Dŵr 1989. Cafodd ei greu fel corff cyhoeddus a'i brif dasg yw diogelu a gwella'r amgylchedd dŵr yng Nghymru a Lloegr a darparu diogelwch rhag llifogydd o'r afonydd a'r môr.

Yn Llundain mae Prif Swyddfa'r Awdurdod, ond mae ei weithgareddau gweithredol wedi eu canoli ar 10 Rhanbarth sy'n seiliedig ar ardaloedd yr hen Awdurdodau Dŵr.

Mae'r ddogfen hon, sy'n un o ddeg, yn ceisio egluro rhywfaint o gefndir Rhanbarth Cymreig yr Awdurdod a dangos sut y caiff amcanion cenedlaethol yr Awdurdod, fel y maent wedi eu gosod allan yn ei Gynllun Corfforaethol am 1990/91, eu trosi'n weithredu yn y Rhanbarthau.

ASIANTAETH YR AMGYLCHEDD CYMRU
ENVIRONMENT AGENCY WALES

GWASANAETH LLYFRGELL A
GWYBODAETH CENEDLAETHOL

NATIONAL LIBRARY &
INFORMATION SERVICE

PRIF SWYDDFA/MAIN OFFICE

Plas-yr-Afon/Rivers House
Parc Busnes Llaneirwg/
St Mellons Business Park
Heol Fortran/Fortran Road
Llaneirwg/St Mellons
Caerdydd/Cardiff CF3 0LT

ENVIRONMENT AGENCY
015364
NRA Wales 77

FOREWORD

This first Regional Plan comes at a time of great concern for the water environment. The demand for clean rivers and beaches has never been more pressing and with our long coastline, popular bathing beaches and the finest salmon rivers in England and Wales, we face an exciting challenge.

The effective management of water resources, improvements in water quality and fisheries, and protection from flooding are all essential for the social and economic well being of the Region. As 'Guardians of the Water Environment' we have a clear sense of purpose and the programme of work set out in this Plan highlights the key priorities for action. In the coming year we will be effective in enforcing regulations for all our functions and will not hesitate to take whatever measures are necessary to protect and improve the catchments under our control.

The start of this decade will see not only the introduction of the Environmental Protection Bill, but also the results of our 1990 Water Quality Survey, which will serve as a significant benchmark for the NRA. Important work will continue on the management of water resources and measures will be taken to establish Water Protection Zones to protect potable supplies from hazardous chemicals.

Other initiatives will target on improvements to bathing beaches, a reduction in the discharge of 'Red List' dangerous substances and the development of catchment management plans. Flood defences will continue to be improved and a number of plans are in place for the improvement of the Region's fisheries.

There can be no doubting the skill and professionalism of our staff and now with the support of a national organisation, we can face the future confident we can meet the challenge.

Dr John Stoner
Regional General Manager

RHAGAIR

Daw'r Cynllun Rhanbarthol cyntaf ar adeg o ofid mawr dros yr amgylchedd yn ei chyfanrwydd. Ni fu erioed cymaint o angen am afonydd a thraethau glân, a chyda'n arfordir helaeth, ein traethau ymdrochi poblogaidd a'r afonydd eog gorau yng Nghymru a Lloegr rydyn ni'n wynebu her cyffrous.

Mae rheoli adnoddau dŵr yn effeithiol, gwella ansawdd dŵr a physgodfeydd a diogelu rhag llifogydd i gyd yn hanfodol i les cymdeithasol ac economaidd y Rhanbarth. Fel 'Gwarchedwyr yr Amgylchedd Dŵr' mae gennym syniad clir am ddiben ac y mae'r rhaglen gwaith yn y Cynllun hwn yn tynnu sylw at y blaenoriaethau allweddol ar gyfer gweithredu. Yn ystod y flwyddyn i ddod byddwn yn effeithiol yn gorfodi rheoliadau ar gyfer ein holl swyddogaethau, ac ni fyddwn yn meddwl ddwywaith cyn cymryd unrhyw gamau a fydd yn angenrheidiol i ddiogelu a gwella'r dalgylchoedd sydd yn ein gofal.

Ar ddechrau'r degawd hwn fe welwn nid yn unig gyflwyno Mesur Diogelu'r Amgylchedd, ond hefyd ganlyniadau ein Harolwg Ansawdd Dŵr 1990, a fydd yn ffon fesur arwyddocaol i'r Awdurdod Afonydd Cenedlaethol. Bydd gwaith pwysig yn parhau ar reoli adnoddau dŵr, a chymerir camau i sefydlu Ardaloedd Diogelu Dŵr er mwyn diogelu cyflenwadau dŵr yfed rhag cemegau peryglus.

Bydd mentrau eraill yn anelu at wella traethau ymdrochi, gollwng llai o bethau peryglus sydd ar y 'Rhestr Goch' a datblygu cynlluniau rheoli dalgylchoedd. Parheir i wella systemau amddiffyn rhag llifogydd, ac y mae nifer o gynlluniau ar y gweill i wella pysgodfeydd y Rhanbarth.

Ni all neb amau medr a gwaith proffesiynol ein staff, a chyda chefnogaeth corff cenedlaethol erbyn hyn gallwn wynebu'r dyfodol yn llawn hyder i allu cwrdd â'r her.

Dr John Stoner
Rheolwr Cyffredinol Rhanbarthol

MISSION STATEMENT

The National Rivers Authority will protect and improve the water environment. This will be achieved through effective management of water resources and by substantial reductions in pollution. The Authority aims to provide effective defence for people and property against flooding from rivers and the sea. In discharging its duties it will operate openly and balance the interests of all who benefit from and use rivers, ground waters, estuaries and coastal waters. The Authority will be businesslike, efficient and caring towards its employees.

AIMS

- to achieve a continuing improvement in the quality of rivers, estuaries and coastal waters, through the control of water pollution.

- to assess, manage, plan and conserve water resources and to maintain and improve the quality of water for all those who use it.

- to provide effective defence for people and property against flooding from rivers and the sea.

- to provide adequate arrangements for flood forecasting and warning.

- to maintain, improve and develop fisheries.

- to develop the amenity and recreation potential of waters and lands under NRA control.

- to conserve and enhance wildlife, landscape and archaeological features associated with waters under NRA control.

- to improve and maintain inland waterways and their facilities for use by the public where the NRA is the navigation authority.

- to ensure that dischargers pay the costs of the consequences of their discharges, and as far as possible, to recover the costs of water environment improvements from those who benefit.

- to improve public understanding of the water environment and the NRA's work.

- to improve efficiency in the exercise of the NRA's functions and to provide challenge and opportunity for employees and show concern for their welfare.

DATGANIAD O'R PWRPAS

Bydd yr Awdurdod Afonydd Cenedlaethol yn diogelu a gwella'r amgylchedd dŵr. Gwneir hynny drwy reoli adnoddau dŵr yn effeithiol a thrwy leihau llygredd yn sylweddol. Mae'r Awdurdod yn anelu at ddarparu amddiffynfa effeithiol i bobl ac eiddo rhag llifogydd o afonydd a'r môr. Wrth gyflawni ei ddyletswyddau bydd yn gweithredu'n agored ac yn cydbwyso buddiannau pawb sy'n elwa o ddefnyddio afonydd, dŵr tir, aberoedd a dyfroedd y glannau. Bydd yr Awdurdod yn gweithredu mewn ffordd drefnus, effeithiol a gofalus tuag at ei weithwyr.

Y NOD

- cael gwelliant parhaus yn ansawdd afonydd, aberoedd a dyfroedd y glannau drwy reoli llygredd dŵr.

- asesu, rheoli, cynllunio a diogelu adnoddau dŵr a chynnal a gwella ansawdd dŵr i bawb sy'n ei ddefnyddio.

- darparu amddiffyniad effeithiol i bobl ac eiddo rhag llifogydd o afonydd a'r môr.

- darparu trefniadau digonol i rag-weld llifogydd a rhoi rhybudd amdanynt.

- cynnal, gwella a datblygu pysgodfeydd.

- datblygu potensial mwynder a hamdden y dyfroedd a'r tir sydd o dan reolaeth yr Awdurdod.

- diogelu a gwella bywyd gwyllt, tirwedd a nodweddion archaeolegol sy'n gysylltiedig â dyfroedd o dan reolaeth yr Awdurdod.

- gwella a chynnal dyfrffyrdd mewnol a'u cyfleusterau ar gyfer eu defnyddio gan y cyhoedd pan fydd yr Awdurdod yn awdurdod mordwyo.

- sicrhau bod pobl sy'n gollwng i ddyfroedd yn talu'r gost am ganlyniadau'r hyn a ollyngir, a chyn belled â phosibl i adennill y gost o wella amgylchedd dŵr oddi wrth y rheiny sy'n elwa.

- gwella dealltwriaeth y cyhoedd am amgylchedd dŵr a gwaith yr Awdurdod Afonydd Cenedlaethol.

- gwella effeithiolrwydd wrth ymarfer swyddogaethau'r Awdurdod a chreu her a chyfle i weithwyr a bod yn ofalus am eu lles.



Some Key Statistics

Area: 21,300 sq km
Population: 3.1m
Length of main rivers: 5,679 km
Length of estuaries: 411.8 km
Length of coastline: 1,100 km
Area of inland lakes: 11.6 sq km
Area of reservoirs: 61.8 sq km
Average annual rainfall: 1,267 mm
Number of abstraction licences: 4,030
Volume of water abstraction: 29,642 Ml/d
Number of industrial discharges: 11,227
Number of EC bathing waters: 48

Ystadegau Allweddol

Arwynebedd: 21,300 km sg
Poblogaeth: 3.1m
Hyd prif afonydd: 5,679 km
Hyd aberoedd: 411.8 km
Hyd arfordir: 1,100 km
Arwynebedd llynnoedd mewnol: 11.6 km sg
Arwynebedd cronfeydd dŵr: 61.8 km sg
Cyfanswm glaw ar gyfartaledd: 1,267 mm
Nifer trwyddedau tynnu: 4,030
Cyfaint dŵr a dynnir: 29,642 Ml/d
Nifer gollyngiadau diwydiannol: 11,227
Nifer traethau ymdrochi CE: 48

WELSH REGION

The Welsh Region is one of the largest of the ten Regions of the National Rivers Authority. Scenically it is also one of the most spectacular, with the Snowdonia, Pembrokeshire and Brecon Beacons National Parks and an outstanding coastline.

With annual rainfall as high as 2,000mm over the mountains of mid and south Wales, and up to 4,000 mm in Snowdonia, the development of water resources features largely within the Region. In addition to supplying the needs of the resident population, rivers and reservoirs within the Region supply large conurbations in the midlands and the north west of England. Many of the large multi-purpose reservoirs are also important centres for recreation. With the high rainfall, however, comes the risk of flooding and all the major centres of population, including Cardiff, the capital city, have defences to protect them from severe events.

Land use within the Region is particularly diverse. In the mountains of North and West Wales, hill grazing and afforestation are the main uses and acidification of runoff is the main environmental issue. In the more fertile agricultural areas of Pembrokeshire and Herefordshire, strong farm effluents and diffuse inputs of nutrients and pesticides are the main concern. Industrial development is concentrated in the South Wales valleys and around the Wrexham and Deeside areas. In these areas, industrial effluents are a major problem and present a serious potential for pollution.

Recreation and tourism figure largely in the economy of the Region. The Wye is the principal salmon river of England and Wales and the only one designated as an SSSI for its whole length. Indeed, most of the rivers provide excellent fishing for both salmon and sea trout.

RHANBARTH CYMRU

Rhanbarth Cymru yw un o'r mwyaf o ddeg Rhanbarth yr Awdurdod Afonydd Cenedlaethol. O ran harddwch hefyd mae'n un o'r rhai mwyaf arbennig, gyda Pharciau Cenedlaethol Eryri, Sir Benfro a Bannau Brycheiniog ac arfordir eithriadol o hardd.

Bydd cymaint â 2,000mm o law yn disgyn ar fynyddoedd canolbarth a de Cymru a hyd at 4,000mm yn Eryri, ac o'r herwydd mae datblygu adnoddau dwr yn waith amlwg yn y Rhanbarth. Yn ogystal â darparu ar gyfer anghenion trigolion, mae afonydd a chronfeydd dŵr y Rhanbarth yn darparu hefyd ar gyfer ardaloedd poblog canolbarth a gogledd orllewin Lloegr. Mae llawer o'r cronfeydd dŵr mawr aml-bwrpas hefyd yn ganolfannau hamdden pwysig. Ond gyda'r glaw trwm daw perygl llifogydd, ac mae gan y mannau mwyaf poblog i gyd, gan gynnwys Caerdydd, y brifddinas, ddulliau i'w hamddiffyn rhag y digwyddiadau gwaethaf.

Ceir amrywiaeth helaeth yn y ffordd y defnyddir tir yn y Rhanbarth. Yn ardalodd mynyddig Gogledd a Gorllewin Cymru pori ar y bryniau a phlannu coedwigoedd yw'r prif ffyrdd o ddefnyddio'r tir ac asideiddio'r afonydd gan y ddŵr sy'n llifo o'r tir yw'r prif fater amgylcheddol. Yn yr ardaloedd amaethyddol gwell yn Sir Benfro a Swydd Henffordd y brif ofid yw elifiant cryf o ffermydd a defnyddiau maeth a phlaleiddiaid yn llifo i'r afonydd. Mae'r datblygiadau diwydiannol, wrth gwrs, yn canolbwyntio ar gymoedd De Cymru ac o gwmpas ardaloedd Wrecsam a Glannau Dyfrdwy. Yn yr ardaloedd hyn mae elifiant diwydiannol yn broblem fawr ac fe allai achosi llygru difrifol.

Mae hamdden a thwristiaeth yn amlwg iawn yn economi'r Rhanbarth. Afon Gwy yw'r brif afon eog yng Nghymru a Lloegr a'r unig sydd wedi ei phennu'n SSSI ar ei hyd. Yn wir, mae mwyafrif yr afonydd yn fannau pysgota gwych ar gyfer eog a brithyll.

KEY ACHIEVEMENTS SINCE VESTING

The NRA formally came into existence on 1st September and by that time all the arrangements had been completed to enable the Region to discharge its functions effectively. Formal Agreements were set up to provide Information Technology services and Reservoir Operating Agreements were concluded with Welsh Water Plc to meet the NRA's requirements for the regulation of the rivers Dee, Wye, Tywi, Dwyfor, Aled and Clwyd.

The summer of 1989 proved to be one of the most severe droughts on record and a total of ten Drought Orders were required to conserve water resources to maintain supplies. Improved operational management of the South East Wales water grid delayed the need for a Drought Order to reduce flows on the river Usk until the first week of October, less than 2 weeks before the drought finally broke.

Emergency procedures for pollution incidents and flood warning have all been put into effect and a 24 hour incident room has been established at Regional Head Office. The system has now been tested several times by both major pollutions and severe floods. The Welsh station of the UK weather radar network has been commissioned and was formally opened by the Authority's Chairman and former Secretary of State for Wales, Lord Crickhowell.

At the direction of the Secretary of State for Wales, time limited relaxed discharge consents were issued for sewage treatment works and temporary consents were issued for storm sewer overflows, water treatment works and other miscellaneous discharges. A Regional Action Plan for reducing discharges of 'Red List' dangerous substances has been submitted, and three surveys have been completed to identify the locations of major discharges. The Regional Laboratory at Llanelli was also successful in winning a contract to analyse the national (ie NRA-wide) Red List metals samples, in open competition.

Three Statutory Regional Committees have been set up to advise the Region on its affairs: the Rivers Advisory Committee, the Fisheries Advisory Committee and the Flood Defence Committee (the Flood Defence Committee also having executive powers). Liaison procedures have also been established with Town Planning Authorities when it was established that the NRA would be a statutory consultee.

A robust approach to enforcement has been adopted by the Region and successful prosecutions have been made for water resources, fisheries and pollution offences.

The Region has been active in assisting with the development of national policy across all functions and with presenting evidence to the Environment Select Committee on Beach Pollution. Evidence has also been presented to the Lords and Commons Select Committees to safeguard the NRA's statutory responsibilities for the Cardiff Bay Barrage development.

During this period, a number of flood alleviation schemes have been completed including the major scheme at Monmouth on the river Wye at a cost of some £2.5m.

Y PETHAU ALLWEDDOL SYDD WEDI'U GWNEUD

Daeth yr Awdurdod Afonydd Cenedlaethol i fod ar 1 Medi ac erbyn hynny roedd yn rhaid gorffen yr holl drefniadau i alluogi'r Rhanbarth i gyflawni ei swyddogaethau'n effeithiol. Sefydlwyd Cytundebau ffurfiol i ddarparu gwasanaethau Technoleg Gwybodaeth a gwnaed Cytundebau Gweithredu Cronfeydd Dŵr gyda Dŵr Cymru ccc i fodloni anghenion yr Awdurdod ar gyfer rheoli afonydd Dyfrdwy, Gwy, Tywi, Dwyfor, Aled a Chlwyd.

Yn ystod yr haf 1989 cawsom un o'r cyfnodau sych gwaethaf erioed ac yr oedd angen cyfanswm o ddeg Gorchymyn Arbed Dŵr i ddiogelu ffynonellau dŵr er mwyn cadw'r cyflenwadau. Bu gwell rheolaeth gweithredu ar grid dŵr De Ddwyrain Cymru yn help i osgoi'r angen am Orchymyn Arbed Dŵr er mwyn lleihau'r llif ar afon Wysg tan yr wythnos gyntaf ym mis Hydref, sef llai na phythefnos cyn i'r sychdwr ddod i ben yn y diwedd.

Mae trefniadau brys pan ddigwydd llygru ac i rybuddio am lifogydd i gyd wedi eu gweithredu ac y mae stafell ddigwyddiadau 24 awr wedi ei sefydlu yn y Bencadlys Rhanbarthol. Erbyn hyn mae'r drefn wedi ei phrofi lawer gwaith mewn achosion o lygru difrifol a llifogydd trwm. Mae gorsaf Gymreig y rhwydwaith radar yn y Deyrnas Gyfunol wedi ei gomisiynu ac agorwyd hi'n ffurfiol gan Gadeirydd yr Awdurdod a chyn Ysgrifennydd Gwladol Cymru, yr Arglwydd Crughywel.

Ar gyfarwyddyd Ysgrifennydd Gwladol Cymru, rhoddwyd caniatâd rhyddhau wedi ei lacio am gyfnod penodol ar gyfer gweithfeydd trin carthion, a rhoddwyd caniatâd dros dro ar gyfer gorlifo o garthffosydd mewn stormydd, gweithfeydd trin dŵr ac amrywiol achosion eraill o ryddau i afonydd. Mae Cynllun Gweithredu Rhanbarthol i leihau achosion o ollwng defnyddiau ar y 'Rhestr Goch' wedi ei gyflwyno i Adran yr Amgylchedd, a chwblhawyd tri arolwg cenedlaethol i nodi mannau lle gollyngir llawer o ddefnydd i afonydd. Bu'r Labordy Rhanbarthol yn Llanelli hefyd yn llwyddiannus yn ennill contract i ddadansoddi'r samplau o fetelau ar y Rhestr Goch genedlaethol, (h.y. Trwy'r AAC) a hynny mewn cystadleuaeth agored.

Mae tri Phwyllgor Rhanbarthol Statudol wedi eu sefydlu i gynghori'r Rhanbarth am ei faterion: sef y Pwyllgor Ymgynghorol Afonydd, y Pwyllgor Ymgynghorol Pysgodfeydd a'r Pwyllgor Amddiffyn Rhag Llifogydd (mae gan y Pwyllgor Amddiffyn Rhag Llifogydd hefyd bwerau gweithredol). Mae trefniadau cyswllt wedi eu llunio hefyd gydag Awdurdodau Cynllunio Trefol, pan benderfynwyd y byddai'r Awdurdod Afonydd Cenedlaethol yn gorff statudol y byddid yn ymgynghori ag ef.

Mabwysiadwyd agwedd brwdfrydig tuag at cadw rheoliadau gan y Rhanbarth, a gynhelwyd droseddau llwyddianus am adnoddau dŵr, pysgodfeydd a llygredd.

Bu'r Rhanbarth yn weithgar yn helpu datblygu polisi cenedlaethol i gynnwys yr holl swyddogaethau a chyflwynodd dystiolaeth i'r Pwyllgor Dethol yr Amgylchedd ar Lygredd Traethau. Cyflwynwyd tystiolaeth hefyd i Bwyllgorau Dethol Tŷ'r Arglwyddi i ddiogelu cyfrifoldebau statudol yr Awdurdod mewn cysylltiad â datblygu Argae Bae Caerdydd.

Yn ystod y cyfnod hwn cwblhawyd nifer o gynlluniau i atal lligfogydd, gan gynnwys cynllun mawr yn Nhrefynwy ar Afon Gwy yn costio tua £2.5m.

REGIONAL PRIORITIES 1990/91

The NRA has clearly defined aims for each of its functions which provide a common framework for the national organisation. The main priorities which will be addressed within the Region to meet these aims in 1990 are summarised in the following section under each functional heading. In fact, much of the work is interdisciplinary and close co-operation between functions is necessary on most environmental matters.

Water Resources

Water Resources within the Region have been developed for purposes ranging from major public water supply schemes feeding Wales, the Midlands and the North West England, to local supplies for industry, domestic purposes and agriculture. The management of these resources is a major function of the NRA and a number of initiatives are proposed in this Plan to bring them under close control and to protect and improve water quality for abstraction.

Key priorities are:

- A review of licensing and enforcement policy will be undertaken.

- River regulating reservoirs, now owned by private supply companies will be managed under joint agreement with the NRA to balance the interest of water supply with those of the environment.

- The Region will contribute to the development of a national aquifer protection policy to protect our groundwater resources.

- The NRA will be seeking powers to delineate a formal water protection zone for the River Dee, which will restrict and control the use of hazardous materials within the catchment.

- A feasibility study is to be undertaken to investigate the possibility of augmenting flows in the River Alun in North Wales to improve the summer flow regime of the watercourse.

- A programme of installing an automatic computer based system for recording, transmitting and processing data from our network of river gauges is already under way, and will continue to improve operational efficiency.

- An investigation is to be carried out at the Llyn Brianne reservoir to study the problem of cold discharges of compensation and regulation water into an important salmon fishery.

- Changes to water resources legislation arising from the 1989 Water Act will be taken account of, particularly the need to license all agricultural abstractions exceeding $20m^3/d$ which will include many fish farms.

BLAENORIAETHAU RHANBARTHOL 1990/91

Mae gan yr Awdurdod Afonydd Cenedlaethol amcanion penodol ar gyfer pob un o'i swyddogaethau sy'n rhoi fframwaith cyffredin ar gyfer y corff cenedlaethol. Ceir crynodeb yn yr adran sy'n dilyn o dan pob pennawd swyddogaethol o'r prif flaenoriaethau y delir a hwy yn y Rhanbarth i gyflawni'r amcanion hynny ym 1990. Yn wir, mae llawer o'r gwaith yn cynnwys llawer disgyblaeth ac mae cydweithriad agos rhwng swyddogaethau yn hanfodol yn y mwyafrif o faterion amgylcheddol.

Adnoddau Dŵr

Mae Adnoddau Dŵr o fewn y Rhanbarth wedi eu datblygu at ddibenion yn amrywio o gynlluniau mawr cyhoeddus i gyflenwi dŵr i Gymru, Canolbarth Lloegr a Gogledd Orllewin Lloegr i gyflenwadau lleol i ddiwydiant, dibenion domestig ac amaethyddiaeth. Mae rheoli'r adnoddau hynny'n un o brif swyddogaethau'r Awdurdod a chynigir nifer o fentrau yn y Cynllun hwn i ddod â'r rheiny o dan reolaeth agos ac i ddiogelu a gwella ansawdd dŵr ar gyfer ei dynnu.

Dyma'r blaenoriaethau allweddol:

- Ymgymerir ag arolwg o bolisi trwyddedu a gorfodi.

- Caiff cronfeydd dŵr sy'n rheoli afonydd ac sy'n awr yn eiddo i gwmniau cyflenwi preifat eu rheoli drwy gytuneb ar y cyd a'r Awdurdod i gadw cydbwysedd rhwng buddiannau cyflenwi dŵr a'r amgylchedd.

- Bydd y Rhanbarth yn cyfrannu ar ddatblygu polisi diogelu acwifferau cenedlaethol er mwyn diogelu'n ffynonellau dŵr tir.

- Bydd yr Awdurdod yn ceisio cael pwerau i bennu rhanbarth diogelu dŵr ffurfiol ar gyfer Afon Dyfrdwy, a hynny'n cyfyngu ac yn rheoli defnyddio pethau peryglus o fewn y dalgylch.

- Cynhelir astudiaeth posibilrwydd i ymchwilio i'r posibilrwydd o gynyddu llif Afon Alun yng Ngogledd Cymru er mwyn gwella llif y cwrs dŵr yn yr haf.

- Mae rhaglen ar y gweill eisoes i osod system awtomatig ar gyfrifadur i gofnodi, trosglwyddo a phrosesu gwybodaeth o'n rhwydwaith o feteri afonydd, a bydd hynny'n parhau i wella effeithiolrwydd gweithredu.

- Cynhelir ymchwiliad ar gronfa ddŵr Llyn Brianne i astudio problem gollwng dŵr lefelu a dŵr rheoli oer i bysgodfa eog bwysig.

- Cymerir i ystyriaeth newidiadau mewn deddfwriaeth adnoddau dŵr yn deillio o Ddeddf Dŵr 1989, yn enwedig yr angen amdrwyddedu'r holl ddŵr a dynnir ar gyfer amaethyddiaeth sydd dros $20m^3/d$. Bydd hynny'n cynnwys nifer o ffermydd pysgod.

Water Quality

The Welsh Region has developed a rigorous and systematic approach to water quality planning. For individual river systems, the development of Catchment Management Plans means that the Quality Objectives applied to a given reach take full account of the uses to which it is put, and also ensures that when remedial measures are needed all the relevant factors and options are considered. Similarly the development of strategies relating to specific problems means that they are tackled in a consistent approach across the Region.

In 1990, special attention will be given to:

- Planning improvements to EC designated Bathing Beaches.
- The reduction in 'Red List' dangerous substances.
- Determining deemed consents and prioritising remedial works at sewage and water treatment works which adversely impact upon the environment.
- The development of mathematical methods to predict the effects of estuarine discharge consents and to improve operational control by predicting the time of travel of pulses of pollution in rivers.
- A formal survey of water quality during 1990 and will subsequently be reported to the DoE for the setting of Water Quality Objectives.
- Organising a campaign with "Keep Wales Tidy" and other organisations to clean up the litter along the River Taff and reduce further inputs.
- Recovering part of its costs of pollution control through the developments of a system of charges based on the 'polluter pays' principle.

Flood Defence

Flood defence is a vital activity in the Region, protecting people and property from flooding.

Key priorities are:

- An ongoing programme of maintenance and new works will ensure that defences are secure and the flood warning system will be operational 24 hours a day throughout the year.
- Significant new flood alleviation schemes will be started at Tynewydd, Taffs Well and the final phase of the Dafen scheme in South Wales and at Hawarden in North Wales.
- This year will see significant advances in the use of weather radar from the new Welsh station in Dyfed, and improved data capture will improve the flow of information available to our flood forecasting teams.

Ansawdd Dŵr

Mae Rhanbarth Cymru wedi datblygu dull trwyadl a threfnus o gynllunio ar gyfer ansawdd dŵr. Ar gyfer systemau afonydd unigol, golyga datblygu Cynlluniau Rheoli Dalgylch fod yr Amcanion Ansawdd sy'n cael eu cymhwyso at bob darn yn cymryd ystyriaeth y defnydd a wneir ohono, ac mae hefyd yn sicrhau, pan fydd angen dulliau cywiro, fod yr holl ffactorau a'r dewisiadau perthnasol yn cael eu hystyried. Yn yr un modd, mae datblygu strategaethau'n ymwneud â phroblemau perthnasol yn golygu eu bod yn cael eu trin mewn ffordd gyson drwy'r Rhanbarth yn gyfan.

Ym 1990 rhoir sylw arbennig i:

- Gynllunio gwelliannau i Draethau Ymdrochi CE.
- Lleihau pethau peryglus sydd ar y 'Rhestr Goch'.
- Pennu caniatâd tybiedig a rhoi blaenoriaeth i waith adfer mewn gweithfeydd trin carthion a dŵr sy'n cael effaith andwyol ar yr amgylchedd.
- Datblygu dulliau mathemategol o rag-weld effeithiau caniatâd gollwng i aberoedd a gwella rheolaeth weithredol drwy rag-weld yr amser a gymer i lygredd deithio ar hyd afonydd.
- Arolwg ffurfiol o ansawdd dŵr yn ystod 1990, ac wedyn anfonir adroddiad i Adran yr Amgylchedd ar gyfer gosod Amcanion Ansawdd Dwr.
- Trefnu ymgyrch gyda "Cadw Cymru'n Daclus" a chyrff eraill i lanhau'r sbwriel ar hyd Afon Taf ac atal rhagor rhag cael ei daflu yno.
- Adennnill rhan o'r costau o reoli llygredd drwy ddatblygu system o daliadau yn seiliedig ar yr egwyddor mai'r 'llygrwr sy'n talu'.

Amddiffyn Rhag Llifogydd

Mae amddiffyn rhag llifogydd yn un o weithgareddau hanfodol y Rhanbarth, i ddiogelu pobl ac eiddo rhag llifogydd.

Dyma'r blaenoriaethau allweddol:

- Bydd rhaglen barhaus o gynnal a chadw a gwaith newydd yn sicrhau bod y systemau amddiffyn yn gadarn, a bydd y system rybuddio'n gweithredu 24 awr drwy'r flwyddyn.
- Dechreuir cynlluniau sylweddol i leddfu llifogydd yn y Tynewydd, Ffynnon Taf a rhan olaf cynllun Dafen yn y De, a Phenarlag yn y Gogledd.
- Eleni gwneir cynnydd sylweddol wrth ddefnyddio radar tywydd o orsaf newydd Cymru yn Nyfed, a bydd casglu gwybodaeth well yn golygu y bydd gwell llif o wybodaeth ar gael i'n timau sy'n paratoi rhagolygon y tywydd.

Fisheries

The Welsh Region is one of the most important regions for salmonid fisheries with approximately 160 commercial licences and over half the reported angling catches for migratory fish in England and Wales. The main priorities for the fisheries function will be:

- The continuing enforcement of measures to protect fisheries from large scale, organised poaching.
- The determination of the impact on salmon and sea trout stocks of marine, coastal and freshwater exploitation.
- The assessment of water resource requirements of upstream migrating salmonids using acoustic and radio tracking.
- The investigation of restocking strategies, their cost benefits and the options to be used on industrialised catchments.
- The development of a response policy following fish kills and disease outbreaks.
- A review of potential income from net and rod licence duties, and from Section 28 Orders on fishery owners.

Conservation

The Welsh Region has a large number of riverine environments of high conservation value as well as National Parks and Sites of Special Scientific Interest (SSSI). With increasing public interest and concern for the environment, our priorities will be:

- To advise on and promote conservation measures such as habitat improvement programmes.
- To undertake river corridor surveys.

Recreation

The water resources in the Welsh Region form a major recreational asset. With an increasing demand for leisure activities we shall play a role in optimising the use of water and associated landholdings whilst ensuring that conflict between users or environmental degradation does not result.

Specific projects include:

- Developing the Canolfan Tryweryn White Water Canoe Centre.
- Planning a scheme for the River Wye, which offers a right of navigation for about half its length.

Pysgodfeydd

Mae Rhanbarth Cymru yn un o'r Rhanbarthau pwysicaf o ran pysgodfeydd eog gyda thua 160 o drwyddedau masnachol a dros hanner y nifer a gofnodir o ddal pysgod mudo yng Nghymru a Lloegr. Dyma fydd y prif flaenoriaethau ar gyfer y swyddogaeth pysgodfeydd:

- Parhau mesurau gorfodol i ddiogelu pysgodfeydd rhag potsio wedi'i drefnu ar raddfa eang.
- Pennu'r effaith ar stociau eog a brithyll môr o weithfeydd ar y môr, yr arfordir a dŵr croyw.
- Asesu gofynion adnoddau dŵr yr eog ifanc i fyny'r afon drwy ddefnyddio dulliau tracio acwstig a radio.
- Archwilio strategaethau ail-stocio, eu buddiannau o ran cost a'r dewisiadau i'w defnyddio mewn dalgylchoedd diwydiannol.
- Datblygu polisi ymateb pan fydd pysgod yn cael eu lladd ac afiechyd yn taro.
- Arolwg o'r incwm posibl o drethi trwyddedau rhwydo a dal â genwair, ac o Orchmynion Adran 28 ar berchnogion pysgodfeydd.

Cadwraeth

Mae gan Ranbarth Cymru nifer o amgylcheddau afon sy'n werthfawr iawn o ran yr amgylchedd, yn ogystal â Pharciau Cenedlaethol a Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SSSI). Gan fod diddordeb a gofid y cyhoedd am yr amgylchedd yn tyfu, ein blaenoriaethau fydd:

- Rhoi cyngor a hybu mesurau cadwraeth megis rhaglenni gwella cynefinoedd.
- Trefnu arolygon coridorau afonydd.

Hamdden

Mae'r adnoddau dŵr yn Rhanbarth Cymru yn ased sylweddol o ran hamdden. Gan fod mwy a mwy o alw am weithgareddau hamdden, byddwn yn cymryd rhan flaenllaw yn y broses o ddefnyddio dŵr a thir cysylltiedig i'w heithaf, gan sicrhau na fydd gwrthdaro rhwng defnyddwyr neu is-raddio amgylcheddol yn digwydd.

Ymhlith y cynlluniau arbennig mae:

- Datblygu Canolfan Canwio Dŵr Gwyn Tryweryn.
- Trefnu cynllun ar gyfer Afon Gwy, sy'n cynnig hawliau mordwyo dros tua hanner hyd yr afon.

Support Services

A full range of services support the Region's activities in line with the needs of an organisation employing some 711 staff across the Region.

Our priorities include:

- The streamlining of all support services to improve efficiency.
- The measurement of performance to maintain a business like approach.
- The investment in Information Systems to improve productivity.
- The support of the national R&D programme, taking a lead on acid waters research.
- The development and implementation of a Welsh Language policy.

Gwasanaethau Cynnal

Mae amrywiaeth lawn o wasanaethau'n cynnal gweithgareddau'r Rhanbarth, yn unol ag anghenion corff sy'n cyflogi tua 711 o staff ar hyd a lled y Rhanbarth.

Mae ein blaenoriaethau'n cynnwys:

- Addasu'r holl wasanaethau cynnal i fod yn fwy effeithiol.
- Mesur perfformiad i sicrhau dull trefnus.
- Buddsoddi mewn Systemau Gwybodaeth i wella cynhyrchedd.
- Cefnogi'r rhaglen R&D genedlaethol gan roi arweiniad mewn gwaith ymchwil ar ddyfroedd asid.
- Datblygu a gweithredu polisi ar yr Iaith Gymraeg.

REGIONAL ORGANISATION

Each Region of the NRA is managed by a Regional General Manager who reports directly to the Chief Executive and whose management team has responsibility for managing the main functions and support services in the Region. Welsh Region employs a total of some 711 people.

There are three statutory Committees per Region through which the NRA achieves a wide base of consultation. These are a Regional Flood Defence Committee (through which the NRA discharges its flood defence and land drainage duties), a Regional Rivers Advisory Committee and a Regional Fisheries Advisory Committee (these two committees being composed of members from a wide range of relevant backgrounds who advise the NRA on river basin management and fisheries policy respectively).

In addition, each Region has a Regional Advisory Board, on which the RGM and the three statutory Committee Chairmen sit. This is chaired by an NRA Board Member with responsibility for that Region.

Regional General Manager
- **Dr John Stoner**

Regional Board Member
- **Prof Ron Edwards**

Regional Flood Defence Committee Chairman
- **Mr Murray McLaggan**

Regional Rivers Advisory Committee Chairman
- **Prof Mick Bruton**

Regional Fisheries Advisory Committee Chairman
- **Lord Moran**

TREFNIADAETH RANBARTHOL

Rheolwyd pob rhanbarth Awdurdod Afonydd Cenedlaethol gan Rheolwr Cyffredinol Rhanbarthol a bydd yn ateb yn uniongyrchol i'r Brif Swyddog Gweithredol. Mae gan ei dîm rheolwyr cyfrifoldebau am rheoli'r brif gweithrediaidau a gwasanaethau cynhaliaeth yn y Rhanbarth. Cyflogwyd rhyw 711 o bobl gan Rhanbarth Cymru.

Caiff gyngor am faterion yn ymwneud a'r Rhanbarth gan tri phwyllgor statudol. Y rhain yw Pwyllgor Rhanbarthol Diolgelu Rhag Llifogydd (dadlwythwyd yr Awdurdod ei ddyletswyddau diogelu rhag llifogydd a traenio tir trwy'r pwyllgor yma), Pwyllgor Rhanbarthol Ymgynghorol Pysgodfeydd a Pwyllgor Rhanbarthol Ymgynghorol Afonydd (cyfansoddwyd y dau pwyllgor yma o aelodau gyda chefndiroedd perthnasol eang, ac maent yn cynghori'r Awdurdod ar rheolaeth dyffryn afon a bolisiau pysgodfeydd y naill y llall).

Yn ychwanegol, mae gan pob Rhanbarth, Bwrdd Ymgynghorol Rhanbarthol, ac arno mae'r Rheolwr Cyffredinol Rhanbarthol a'r tri Chadeirydd y Pwyllgorau statudol yn eistedd. Cadeirwyd y pwyllgor yma gan Aelod Bwrdd Awdurdod Afonydd Cenedlaethol gyda chyfrifoldeb am y Rhanbarth.

Rheolwr Cyffredinol Rhanbarthol:
- **Dr John Stoner**

Aelod o'r Bwrdd Rhanbarthol:
- **Athro Ron Edwards**

Cadeirydd Pwyllgor Rhanbarthol Diogelu Rhag Llifogydd:
- **Mr Murray McLaggan**

Cadeirydd Pwyllgor Rhanbarthol Ymgynghorol Afonydd:
- **Athro Mick Bruton**

Cadeirydd Pwyllgor Rhanbarthol Ymgynghorol Pysgodfeydd:
- **Arglwydd Moran**

WHERE TO CONTACT US

REGIONAL HEADQUARTERS & SOUTH EASTERN DIVISIONAL OFFICE
Rivers House
St Mellons Business Park
St Mellons
Cardiff
South Glamorgan CF3 0LT
Tel: (0222) 770 088
Fax: (0222) 798 555

24 hour telephone number:
Cardiff *(0222) 770 088*

ACTIVITIES REQUIRING NRA CONSENT

Certain activities require the NRA's consent.
The list is too long to include here, but the following are examples:

- Abstract or impound water.
- Make a discharge to any river, lake or tidal water or onto land for a soakaway, or to specific underground waters.
- Clean or desludge a dam, weir or sluice.
- Culvert any watercourse.
- Interfere with land drainage by building or modifying any structures within or adjacent to a main river.
- Build or plant within 8 metres of a main river.
- Introduce or transfer fish into any waters or use a net or trap to catch fish.
- Use a rod and line to catch fish.

Please contact us if you have any doubt that you need NRA permission.

Public Register Access

The public registers of abstractions and discharges are available for inspection at the Regional Head Office during normal working hours.

GWYBODAETH ALLWEDDOL AM Y RHANBARTH

PRIF SWYDDFA RANBARTHOL A SWYDDFA LEOL Y DE DDWYRAIN
Plas Yr Afon
Parc Busnes Llaneirwg
Llaneirwg
Caerdydd
De Morgannwg CF3 0LT
Tel: (0222) 770 088
Ffacs: (0222) 798 555

Rhif teleffôn 24 awr mewn argyfwng:
Caerdydd *(0222) 770 088*

GWEITHGAREDDAU SY'N GOLYGU GORFOD CAEL CANIATÂD YR AWDURDOD AFONYDD CENEDLAETHOL

Mae angen caniatâd yr Awdurdod am rhai weithgoreddau.
Mae'r rhestr yn rhy faith i'w chynnwys yma, ond dyma rai enghreifftiau:

- Tynnu neu gymryd dŵr
- Gollwng i unrhyw afon, llyn neu ddŵr llanw neu ar dir iddo gael suddo i'r tir, neu i ddyfroedd penodol o dan y ddaear
- Glanhau neu dynnu llaid o argae, cored neu lifddir
- Gwneud cwlfert ar unrhyw gwrs dŵr
- Ymyrryd ag unrhyw draenio tir drwy adeiladu neu addasu unrhyw adeiladau o fewn prif afon
- Adeiladu neu blannu o fewn 8 metr i brif afon
- Cyflwyno neu drosglwyddo pysgod i unrhyw ddyfroedd neu ddefnyddio rhwyd i drapio neu ddal pysgod.
- Defnyddio gwialen a gwifren i ddal pysgod

Byddwch cystal â chysylltu â ni os byddwch yn ansicr o gwbl a oes angen caniatâd yr Awdurdod arnoch.

Cofrestr Gyhoeddus yn Agored

Mae'r gofrestr gyhoeddus o dynnu dŵr a gollwng i afonydd ar gael i'w harchwilio yn y Brif Swyddfa Ranbarthol yn ystod oriau gwaith arferol.

Design & Production by PJ Denly
August 1990